Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 49** **Hydref 2019**



# Llawenhewch!

## *Taflu cerrig*

Dim ond sefyll ar lan pwll go ddwfn yn yr afon sydd ei angen. Mae'r dŵr yn llifo'n araf a'r pwll yn llonydd. Draw yn y pellter mae yna frithyll brown, gwyllt yn neidio i ddal mân wybetach sy'n troelli mewn dawns feddw uwchlaw'r dyfnderoedd.

Does neb arall yno. Dim ond chi eich hun. Ac yn sydyn daw greddf blentynnaidd drosoch i daflu cerrig fel eu bod yn bownsio ar wyneb y dyfroedd llonydd. Dydych chi ddim wedi gwneud hyn ers blynyddoedd, ddim ers pan oedd y plant yn dysgu'r grefft yn eich cysgod.

A rŵan. Does neb wrth law. Neb yn eich gwylio. Neb i feddwl eich bod yn ymddwyn yn blentynnaidd!

A dyna blygu i'ch cwrcwd a dechrau chwilio am y garreg berffaith. Ddim yn rhy drwm – neu bydd hi'n suddo'n syth. Ddim yn rhy ysgafn – neu bydd hi'n neidio'n rhy uchel. A dyma hi. Yr un berffaith. Yn llyfn fel llechen. Wedi ei pharatoi gan lif yr afon ers canrifoedd ar gyfer yr orchest sydd i ddilyn.



Sefyll. Plygu ychydig. Ymestyn a thaflu. A dacw hi'n sboncio ar draws yr wyneb. Un … dau … tri … pedwar ... Naw naid glir. Ac yna sglefrio am lathen neu ddwy cyn suddo i'r dyfnderoedd drachefn.

A dyma chi yn ddeuddeng mlwydd oed am eiliad. Y pencampwr taflu cerrig.

Ond heddiw. Does neb ar lan yr afon dawel i weld na'ch llongyfarch am yr orchest ryfeddol dasgodd o'ch llaw fel ergyd o wn.

A thaflu ambell garreg hydrefol wedi ei hanelu at y Dolig sydd gennym yng ngweddill y llith!

Diwedd mis Medi a Hydref. Erbyn hyn bydd prysurdeb y tymor wedi gafael ynom drachefn ac mae ein dyddiaduron yn llenwi efo cyfarfodydd, pwyllgorau a gweithgareddau o bob math.

Ar ganol tymor ein prysurdeb mae'n dda i ni atgoffa'n hunain mai hwn hefyd yw tymor y Cyfarfodydd Diolchgarwch. A dyma gyfle i bob un ohonom fwrw trem yn ôl dros fisoedd yr haf a'r cynhaeaf a chydnabod daioni Duw ein Harglwydd tuag atom yng nghanol hyn oll i gyd. Ac os nad ydych wedi mynychu capel ers misoedd, neu flynyddoedd, neu ddegawdau, tybed nad ydy ein Cyfarfodydd Diolchgarwch yn gyfle i ninnau groesi trothwy'r drws mewn diolchgarwch ac ailafael yn y bywyd ysbrydol hwnnw a esgeuluswyd gennym cyhyd?

Bydd tymor yr hydref yn fuan yn troi'n dymor y caddug wrth i'r nosweithiau ymestyn ac wrth i oriau'r dydd a'r amser i oleuni lewyrchu fynd yn brinnach. Cyn diwedd y mis, ar 27 Hydref, byddwn yn troi'r clociau'n ôl.

Os cywir fydd y darogan (o leiaf ar adeg ysgrifennu hwn), bydd llywodraeth San Steffan yn mynnu ein bod yn torri ein perthynas ag Ewrop ar ddiwedd y mis; bydd bywoliaeth llawer iawn o bobl yn cael ei pheryglu ac fe fydd blynyddoedd o ansicrwydd ac o drafod ag Ewrop yn dechrau. Nid diwedd Brexit fydd hi, fel y cred llawer. Ond dechrau cyfnod gwirioneddol ansicr. Yn ôl y calendr gwleidyddol bydd 'bwci ar bob camfa' yn dod i'n dychryn adeg Calan Gaeaf.

Tymor y tywyllwch yn ymestyn ymlaen i'r Nadolig yw Tachwedd. Bydd, fe fydd coelcerthi a thân gwyllt yn goleuo'r awyr am noswaith.

Bydd harddwch dail y coed yn yr hydref wedi syrthio i'r llawr yn sypynnau budr yn sgil gwyntoedd yr hydref. Noethni canghennau fydd i'w gweld o'n hamgylch.

A diau y byddwn yn wynebu yn ein bywydau – yn wleidyddol, yn gymdeithasol, yn bersonol – groeswyntoedd a stormydd nad oeddem wedi eu gweld ac nad oedd unrhyw un wedi eu darogan.

Ac yna, fe fyddwn yn ffarwelio â thymor yr hydref ac yn troi ein golygon tuag at y gaeaf a thymor yr Adfent a'r Nadolig. I'r Cristion, tymor y paratoi yw'r Adfent a thymor dathlu cyflawniad addewidion Duw yn Iesu Grist yw'r Nadolig.

A bydd goleuni, a thinsel, a llewyrch ar goed Nadolig i'w gweld yn ein tai a'n pentrefi mewn ymdrech i erlid y nos. A bydd plygain a charol, a gwasanaeth y Gair a'r Geiriau oll yn sibrwd i'r byd neges na chaiff ei thewi byth: bod goleuni tragwyddoldeb wedi llewyrchu yn y tywyllwch mewn modd cwbl unigryw yn Iesu Grist.

I fyd stormus, cythryblus, yn llawn o derfysgoedd gwleidyddol a chreulondeb, o ddioddefaint ac o dristwch, o groesawu ac o ffarwelio, i fyd fel hwn, i fy myd i, y daeth Duw, ein Crëwr a'n Harglwydd.

Pan na wyddom pwy i'w gredu mwyach oherwydd nad yw'r gwir yn ymddangos fel pe bai'n rhan o dafodiaith wleidyddol ein dydd, byddwn ni yn ein capeli gwahanol yn credu, yn pwyso ac yn datgan mai daionus a gwir yw bwriadau ac addewidion Duw tuag atom.

> Mor werthfawr yw dy gariad, O Dduw!
> Llochesa pobl dan gysgod dy adenydd.
> Fe'u digonir â llawnder dy dŷ,
> a diodi hwy o afon dy gysuron;
> oherwydd gyda thi y mae ffynnon bywyd,
> ac yn d'oleuni di y gwelwn oleuni. (Salm 36:7–9)

O Sul i Sul, ym mhob addoliad, ym mhob pregethiad o Air Duw, ym mhob carol ac emyn a ganwn, byddwn yn cyhoeddi i'r byd nad geiriau gwag mo "cariad", "cysgod", "digonedd" ond ein bod yn Iesu Grist yn cael adnabod "ffynnon bywyd," ac mai ynddo Ef "y gwelwn oleuni".

Hop a sgip a naid. O'r hyn i'r Nadolig. Ac wrth i bob carreg adlamu ar ddyfroedd, bydd pob sblash yn gân o fawl, yn ddatganiad o ras Duw tuag atom.

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 10 Tachwedd | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel y Garn,<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Feiciau Gwaed Cymru |
| 22 Rhagfyr | Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau:<br>darlleniadau a cherddoriaeth<br>ar gyfer y Nadolig<br>Capel y Garn am 5 o'r gloch |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Dilynwch ni ar Twitter: @capelygarn

**Mae ysgolion Sul yn cwrdd yng Nghapel Seion, yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor, ac yng Nghapel y Garn, Bow Street. Croeso cynnes i blant o bob oed – holwch y Gweinidog am fanylion.**

# Tudalen y Plant

## Wyt ti'n un da am ddweud 'Diolch'?

Mae'r gân yma'n sôn am gofio diolch, a hefyd am rai pethau y dylen ni ddiolch amdanyn nhw.

Cofia bob amser, cofia bob tro,
Paid ag anghofio dweud, 'Diolch';
Cofia bob amser, cofia bob tro,
Cofia ddweud, 'Diolch Iôr'.



1. Diolch am fwyd bob dydd, am ddillad twym a sgidiau cryf.
2. Diolch am iechyd da, am nerth i weithio a mwynhau.
3. Diolch am gartref clyd, am wres a chysur gawn bob dydd.

Ysgrifenna neu tynna lun 6 peth sy'n dy wneud di'n hapus ac yn ddiolchgar.

1 ______________________________________________

2 ______________________________________________

3 ______________________________________________

4 ______________________________________________

5 ______________________________________________

6 ______________________________________________



## *Gŵyl Ysgolion Sul Gogledd Ceredigion*

Cynhaliwyd yr ŵyl fel arfer ar y Sul olaf o Fehefin yn y Morlan a daeth nifer da o blant, rhieni ac athrawon ynghyd ar draws yr enwadau dan arweiniad Meilyr Geraint. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys stori a drama yn seiliedig ar hanes Dafydd frenin, gemau a chanu caneuon oedd wedi eu cyfansoddi ar gyfer y diwrnod gan Meilyr ei hun.

Cyflwynwyd y casgliad o £150 i elusen DASH a daeth Zoe Glynne Jones i egluro gwaith yr elusen am ei bod yn gwirfoddoli yno.

Cafwyd cinio barbeciw a hufen iâ ar y diwedd cyn i bawb ymadael. Diolch i'r Pwyllgor, dan arweiniad y Cadeirydd, Mrs Ina Tudno Williams, am y trefniadau.

## *Her a gwahoddiad*

Y mae heriau mawr yn wynebu ein capeli. Bob un ohonyn nhw!

Os edrychwn ar yr ystadegau – nifer, canran oed ein haelodau, nifer sy'n mynychu ayyb – ychydig iawn, iawn o gynulleidfaoedd Anghydffurfiol Cymraeg fydd yn goroesi'r blynyddoedd nesaf.

Bydd llawer yn ymateb ac yn dweud nad oes ots yn y byd pan ddigwydd hyn.

Bydd llawer yn siomedig, yn enwedig y rhai hynny ohonom sydd wedi byw ein bywydau ac wedi canfod mynegiant i bethau gorau ein cenedl drwy ein capeli.

Bydd eraill yn canfod, yn rhy hwyr mae'n debyg, fod ots ganddyn nhw fod capel eu teulu nhw wedi cau.

Byddant yn mynegi'r golled trwy fod yn grac, yn arbennig tuag at y rhai na allodd gadw'r drysau'n agored. Byddant yn mynegi eu heuogrwydd am eu hesgeulustod fel dicter tuag at y rhai na allodd gario'r baich yn fwy.

Heb bobl yn addoli Duw, heboch chi, bydd eich capel chi yn cau ei ddrysau yn fuan iawn, iawn.

**Ond nid yw pethau ar ben yn llwyr eto.**

Mae dau beth y medrwn ni ei wneud.

Yn gyntaf, rwyf am eich gwahodd, os ydych yn aelodau yn y capel, i chwilio am yr hen lwybrau nad ydych wedi eu cerdded ers sbel, cyn y bydd y llwybrau a'r drysau wedi'u cau.

"Dwi'm yn cael dim byd o fod yn aelod," meddech chi.

Cwmni, cymdeithas o bobl, sy'n cyfarfod yn Iesu Grist yw eglwys ac nid ymlyniad wrth gapel, neu adeilad, neu sefydliad. Os ydych yn dewis peidio â bod gyda phobl addolgar, neu fod yng nghwmni pobl sydd am fod yn "ddisgyblion" i Iesu Grist, yna, mae'n amlwg na chewch chi lawer o fudd o fod yn aelod ffurfiol ar gofrestr aelodaeth capel.

Mae ffordd rhwydd i oresgyn hyn. Dewch eich hun.
Dewch fel teulu. Dewch â'ch plant.

Am ba reswm bynnag sydd gennych: dewch!

Yn ail, rwyf am eich gwahodd i dreulio'r wythnosau o hyn i'r Dolig yn gweddïo gyda mi am ddyfodol ein tystiolaeth yn ein pentrefi. Beth am weddïo gweddi debyg i hon, yn wythnosol, neu'n well, yn ddyddiol?

Gweddi ydyw sy'n cael ei defnyddio'n ddyddiol yng nghanolfan encil Ffald y Brenin, ger Trefdraeth, Sir Benfro. Caiff ei hadnabod fel Gweddi Caleb. Gweddi dros Gymru ydyw. Gallwn ei defnyddio fel y mae, neu gallwn ei defnyddio fel penawdau i glymu gweddïau eraill wrthynt:

**O Uchel Frenin Nef,**
**Trugarha wrth ein gwlad.**
**Bywha dy Eglwys.**
**Danfon yr Ysbryd Glân,**
**er mwyn y plant.**
**Deled dy Deyrnas i'n cenedl.**
**Yn enw nerthol Iesu.**
**Amen.**

## *Gwreiddiau*

### "Byddwch yn llawen bob amser …"

Mae grŵp Gwreiddiau wedi ailafael ar ôl yr haf!

A byddwn yn cyfarfod, yn ôl ein harfer, ar fore Iau am 10:15 am baned a chlonc a sgwrs cyn dechrau ar ein trafodaethau. Byddwn yn gorffen am 11.30.

Rŵan. Mi wn, o siarad efo nifer fawr ohonoch, fod gennych gwestiynau lu am fywyd, am beth yw ystyr "credu", am natur "ffydd" ac yn arbennig am Iesu Grist ei hun.

Mewn byd lle mai canran fechan iawn sy'n credu geirwiredd Prif Weinidog San Steffan bellach, yn ôl yr arolygon barn, ac mai mater o "sbin" yw datganiadau a chyhoeddiadau arweinwyr sefydliadau, mae'r cwestiwn yn aros: oes yna'r fath beth i'w gael â "gwirionedd" o gwbl? Neu ai dim ond mater o farn, o bwyslais, o ddehongliad ydy'r cyfan oll i gyd? A beth yw ystyr dweud ein bod yn credu mai Iesu yw'r "gwirionedd"? Ac os nad yw'n dweud y gwir amdano'i hun, sut all Iesu Grist fod yn berthnasol heddiw?

Yn ystod y tymor hwn byddwn yn ceisio canfod atebion yng Ngair Duw i'r cwestiynau pwysicaf. Sut mae byw bywyd da? Sut mae byw yn llawen? Sut mae wynebu marwolaeth gyda gobaith? Sut mae byw ein bywydau gydag urddas mewn byd mor gymysglyd? A sut mae mesur gwerth crefydd ein "traddodiad" mewn oes mor heriol? Beth yw pen draw ein bywydau?

Cwestiynau ydynt y bydd pob un ohonom wedi meddwl amdanynt ac efallai eich bod yn meddwl nad oes ateb go iawn iddynt.

Er mwyn ateb cwestiynau sy'n ein baglu a'n blino, byddwn yn edrych ar lythyr a ysgrifennwyd at un o gynulleidfaoedd cynharaf Ewrop yn Philipi.

A gallaf eich sicrhau y bydd unrhyw un sy'n dod â meddwl a chalon agored yn cael ei gyfoethogi yn y sgyrsiau ac yn darganfod pethau am

ein ffydd nad oeddem yn gwybod eu bod nhw yno o gwbl, pethau anghofiedig a gollwyd yn ein traddodiadau Anghydffurfiol.

Os ydy'r syniad o fod mewn grŵp o'r fath yn eich dychryn – sdim ots. Wnaeth yr ofn oedd yn ein calon ddim ein rhwystro rhag dysgu mynd ar gefn beic, na gyrru car, nac unrhyw beth arall chwaith!

Felly, dewch eich hun – fe gewch groeso. Dewch â'ch ffrind – sdim ots a ydyn nhw'n grefyddol ai peidio! Dim ond meddwl a chalon agored i chwilio a thrafod ac i gymryd camau i gyfeiriad Duw gyda'n gilydd sydd ei angen.



Welwn ni chi yno.

**Seion, Capel Seion**

## Oedfa Ddiolchgarwch

**Nos Fercher, 2 Hydref,**
**am 7 o'r gloch**
**dan arweiniad**
**y Parchedig T. Evan Morgan,**
**Salem, Treganna, Caerdydd**
**Swper Diolchgarwch i ddilyn yr oedfa**
**Croeso cynnes i bawb**

## *Diolch a Chyfle Newydd*

Roeddwn i'n arfer bod yn ffyddlon i'r capel … Ond rywsut dwi wedi colli'r arfer.

Dwi wedi clywed y geiriau droeon yn ystod y blynyddoedd.

Weithiau, mae'r geiriau'n esgus. Weithiau, maen nhw'n cuddio awydd, neu euogrwydd neu …

Ond ddoe oedd hynny. Dydyn ni ddim am i'n ddoe benderfynu ein heddiw a'n harfer yfory. A does neb yn cadw cyfrif!

Yn ystod y tymor hwn, bydd Cyfarfodydd Diolch yn cael eu cynnal ym mhob capel. Ac fe fyddwn yn cynnal cyfarfodydd yn arwain i fyny i'r Dolig – gwasanaethau i'r teulu cyfan ym mhob capel.

Ond yn y Garn, Bow Street?

Beth am osod y dyddiad hwn yn eich dyddiadur i ddechrau?

**10:00 y bore**
**13 Hydref**

**Cwrdd Diolch i'r Teulu**

**Bydd o'n wahanol i oedfaon eraill!**
**Gadewch i hwn fod yn gyfle newydd i chi**
**– i ddechrau dod yn ôl i'r capel**
**– yn gyfle i'ch teulu, i'ch plant**
**– yn ddechrau newydd efo'n gilydd yn y capel a'r Ysgol Sul**

## Hydref

*Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones*
*Eddie Jenkins*

| | |
|---|---|
| 2 | Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch<br>Gwasanaeth Diolchgarwch yng ngofal Beti Griffiths |
| 6 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>yng Nghapel Noddfa |
| 9 | Cyfarfod Swyddogion y Garn<br>yn y festri am 7 o'r gloch |
| 13 | Gwasanaeth Diolchgarwch am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Gweinidog |
| 18 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Cynan, Carlo a'r Cwin' –<br>darlith gan yr Athro Gerwyn Wiliams, Bangor<br>Noddir gan Lenyddiaeth Cymru |
| 20 | Oedfa gymun am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Gweinidog |
| 27 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd |

A phan ddaw'r hydref yn ei rwysg
a'i law yn euro dail y coed
cawn brofi cyfoeth cnwd y maes
eleni eto fel erioed.

(Rebecca Powell)

## *Capel y Garn*

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at nifer o'n haelodau sydd wedi dioddef cyfnodau o salwch yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl atom yn fuan iawn.

## *Rhestr Flodau'r Garn*

| **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** |
|---|---|---|
| 6 Noddfa | 3 | 1 Noddfa |
| 13 | 10 Delyth Jones | 8 Dwysli Williams |
| 20 Dwysli Williams | 17 | 15 Dwysli Williams |
| 27 | 24 | 22 Dwysli Williams |
| | | 29 Mynydd Gorddu |

## *Rota Coffi ar fore Sul*

O fis Medi ymlaen, Meinir Roberts (828 136) fydd yn trefnu'r Rota Coffi ar fore Sul. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r rhai (gweler y rhestr isod) sy'n paratoi paned a chroeso ar ôl yr oedfa o Sul i Sul, ond byddem yn falch o gael rhai enwau ychwanegol i helpu yn ôl y galw. Mae hon yn elfen werthfawr iawn o'n gweithgareddau, felly rhowch eich enwau i Meinir, os gwelwch yn dda.

Diolch yn arbennig i Marian Jenkins sydd wedi bod yn gyfrifol am drefnu'r rota o'r dechrau cyntaf, yn ôl yng nghanol wythdegau'r ganrif ddiwethaf, gan wneud cyfraniad gwirioneddol werthfawr.

| | |
|---|---|
| Sul cyntaf: | Marian Jenkins ac Elina Davies |
| Ail Sul: | Elizabeth Ll. Jones a Margaret Rees |
| Trydydd Sul: | Delyth Jones a Meinir Roberts |
| Pedwerydd Sul: | Nans Morgan a Mair Jenkins |
| Pumed Sul: | Joyce Bowen a Llinos Evans |

## Tachwedd

***Blaenor y mis: Alan Wynne Jones***

***I gyfarch wrth y drysau: Elizabeth Jones***
***Ann Jones***

| | |
|---|---|
| 3 | Oedfa am 10 o’r gloch<br>dan arweiniad y Parch Athro John Tudno Williams |
| 6 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2 o’r gloch<br>‘Addurniadau Nadolig’ – Dwysli Peleg Williams |
| 10 | Oedfa’r ofalaeth am 10 o’r gloch yng Nghapel y Garn<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Casgliad tuag at Feiciau Gwaed Cymru |
| 17 | Oedfaon dan arweiniad y Gweinidog:<br>oedfa gymun yn y Garn am 10 o’r gloch;<br>oedfa anffurfiol ym Methlehem, Llandre, am 5 o’r gloch |
| 22 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch<br>‘Talent yr Ifanc’ dan ofal Dr Rhodri Llwyd Morgan |
| 24 | Oedfa am 10 o’r gloch<br>dan arweiniad y Parch Adrian Williams |
| 30 | Bore Coffi a Stondinau<br>Festri’r Garn, 10.30 tan 12 o’r gloch<br>Trefnir gan Chwiorydd y Garn |

## *Grŵp Help Llaw – Capel y Garn*

Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn festri'r Garn am 2 o'r gloch ar bnawn Mercher – cyfle am baned a sgwrs ac i gefnogi gwaith elusennol, gyda chroeso i unrhyw un droi i mewn.

Yn ystod y tymor hwn, bydd y grŵp:

- yn parhau i gasglu arian mân i Water Aid, yn ogystal â sbectolau a stampiau;
- yn gwau sgwariau i wneud blancedi bach ar gyfer Ffrindiau Dementia.

Penderfynwyd cyflwyno swm o £100, sef arian te'r pnawn, i Uned Cemotherapi, Ysbyty Bronglais.

Ddechrau'r flwyddyn nesaf, bwriedir hefyd wneud apêl am gynnyrch i'r Banc Bwyd lleol.

Diolch am eich cefnogaeth – gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad.

*Shan Hayward*

*Ann Jones*



**Rhai o aelodau Capel y Garn yn mwynhau cinio cymdeithasol yng Nghrefftau Pennau yn dilyn yr oedfa ar 21 Gorffennaf**

## **Rhagfyr**

***Blaenor y mis: Marian Beech Hughes***

***I gyfarch wrth y drysau: Gruffydd Aled Williams***
***Bryn Roberts***

| | |
|---|---|
| 1 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>yng Nghapel Noddfa |
| 4 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn<br>Cinio i ddathlu'r Nadolig |
| 8 | Oedfa gymun am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Gweinidog |
| 13 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Dathlu'r Nadolig' dan ofal Alan Wynne Jones |
| 15 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Parch Ifan Mason Davies |
| 22 | Gwasanaeth Nadolig Teuluol am 10 o'r gloch<br>Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau am 5 o'r gloch<br>dan ofal y Gweinidog |
| 25 | *Bore'r Nadolig*<br>Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 9 o'r gloch |
| 29 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Parch Carwyn Arthur |

# *Beiciau Gwaed Cymru*

Beiciau Gwaed Cymru yw elusen yr ofalaeth am eleni, a bydd casgliadau pob oedfa sy'n cael ei chynnal i eglwysi'r ofalaeth ar y cyd yn cael eu cylfwyno i'r elusen hon.



Mae'r elusen hon yn bodoli i gefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, ac mae'n cludo cyflenwadau gwaed, plasma, dogfennau ac eitemau eraill ledled Cymru – yn rhad ac am ddim.

Mae'n gweithredu pan na fydd dulliau arferol o gludo'r pethau hyn ar gael, sef rhwng 7 o'r gloch nos Wener a hanner nos ar nos Sul, yn cynnwys gwyliau banc a hyd yn oed ar ddydd Nadolig.

Bydd cyfle i gyfrannu tuag at yr elusen yn oedfa'r ofalaeth yng Nghapel y Garn ar 10 Tachwedd.



**O bethau bychain y mae pethau mawr yn tyfu.**
**Dyw pob cawod yn ddim ond diferyn bach;**
**pob tân yn ddim ond gwreichionyn;**
**pob cynhaeaf yn ddim ond hedyn;**
**pob taith yn ddim ond cam,**
**oherwydd heb y cam does dim taith;**
**heb y diferyn glaw, does dim cawod;**
**heb yr hedyn, ni fydd cynhaeaf.**




Addasiad o ddyfyniad o waith William Wilberforce, Cristion a wnaeth gymaint o waith arwrol i ddileu caethwasiaeth, o *Bara'r Bywyd*: llyfryn thema Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2019/2020.

## *Pererindod Flynyddol Seion*

Yn hwyrach nag arfer eleni, ar brynhawn Sul, 1 Medi, teithiwyd mewn ceir i ddau le digon gwahanol i'w gilydd, y naill yn Sir Gaerfyddin a'r llall yng Ngheredigion. Amgueddfa Wlân Cymru yn Dre-fach Felindre, oedd y gyrchfan gyntaf. Lleolir yr Amgueddfa yn Ffatri Cambria, y mwyaf o 52 o felinau gŵlan yr ardal ar un adeg, oedd yn cynhyrchu crysau gwlanen, dillad isaf a blancedi ar gyfer cymoedd diwydiannol y de a'r farchnad ryngwladol. Trefnwyd taith dywys i ni fel grŵp gan un o weithwyr y ffatri a chawsom gyfle i weld rhai o'r peiriannau anferth yn gweithio i lanhau, chwalu, cribo, nyddu, ystofi a gwehyddu'r gwlân.



Wedi te yn y caffi, teithio eto i bentref Rhydowen,
lle gwelir ar ymyl y ffordd gapel hanesyddol enwad
yr Undodiaid, sef Llwynrhydowen, yn dyddio 'nôl i'r flwyddyn
1733. Diolch yn fawr i'r Gweinidog, y Parchedig Wyn Thomas,
am ddod yno i'n cyfarfod a rhoi hanes y capel a'r gymuned i ni.

Erbyn 1742 amcangyfrifir bod aelodaeth y capel yn 400.
Y Parchedig Gwilym Marles, sef hen ewythr Dylan Thomas, oedd y gweinidog o 1860 tan gyfnod y 'troad allan' ar 29 Hydref 1876, a hynny am y mynnai sgweiar lleol Alltyrodyn fod pawb yn cefnogi'r Torïaid yn yr etholiad cyffredinol. Am iddynt anufuddhau, tröwyd y Gweinidog a'r gynulleidfa allan o'r capel. Aeth yr hanes ar led mewn papurau newydd ar draws y byd a daeth y cyhoeddusrwydd am yr annhegwch hwn â chydymdeimlad a chyfraniadau ariannol i'r aelodau i'w gwneud hi'n bosib codi capel newydd ym Mhont-siân yn 1879 ac yno yr addolir heddiw. Cyn gadael offrymwyd gweddi a chanwyd emyn 'Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw'. Trwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth Capeli Cymru, adnewyddwyd yr hen gapel, a oedd bron yn furddun, i'w gyflwr gwreiddiol gydag arbenigedd pensaer a oedd o dylwyth Alltyrodyn ar gost o dros chwarter miliwn a chynhelir yno dair oedfa y flwyddyn, a bydd llawer o ymwelwyr yn galw heibio yn gyson i fyw'r hanes. Daeth pawb ynghyd i swpera a chymdeithasu ym mwyty Ffostrasol wedi dysgu llawer, rhyfeddu a mwynhau eleni eto.





*Y Gweinidog yn croesawu*



*Delyth, Mair a Dwysli'n gofalu am y bwyd blasus*


## *Swper Cynhaeaf Capel y Garn, Bow Street*

Roedd ysgoldy Bethlehem, Llandre, ger Bow Street, yn llawn i'r ymylon nos Wener, 13 Medi, ar gyfer Swper Cynhaeaf a drefnwyd gan Gapel y Garn. Braf oedd gweld plant a phobl o bob oed yn dod at ei gilydd i gymdeithasu fel hyn. Cafwyd gair o groeso gan y Gweinidog, y Parch Watcyn James, cyn i bawb fwynhau swper blasus a sgwrs felys. Delyth Jones a Dwysli Peleg-Williams oedd yn gyfrifol am drefnu a pharatoi'r wledd, a Nans Morgan drefnodd y raffl. Llywydd y noson oedd Alan Wynne Jones, ac ef oedd y cwisfeistr yn y cwis hwyliog yn seiliedig ar gystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd. Codwyd y swm anrhydeddus o £576 at Uned Cemotherapi Ysbyty Bronglais, a diolchodd y Gweinidog yn gynnes i'r rhai fu'n trefnu ac i bawb am gefnogi.

Hwn oedd y tro cyntaf inni weld Bethlehem ar ei newydd wedd, a diolchwyd i Llŷr James am ei waith cymen yn gosod y gegin newydd yn ei lle.



*Enid a Mirain yn mwynhau*




Pan gyhoeddais fy nofel *Llinynnau* ym mis Gorffennaf 2018, addewais y byddai'r elw yn mynd tuag at elusennau sy'n helpu ffoaduriaid rhyfel.

Mae'n dda gennyf felly ddweud bod 490 o'r 500 copi a argraffwyd wedi eu gwerthu ac fy mod bellach wedi cyfrannu £1,500 i'r International Rescue Committee, £1,500 i Médecins Sans Frontières, a £1,119 i Aberaid.

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y fenter.

*Llinos Dafis*

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Delyth Davies, Pen-llwyn
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau,
Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Rhagfyr** i'r golygydd:
Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662
marian_hughes@btinternet.com